CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD CYNGOR 2 MEHEFIN 2015

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W L Davies

Cynghorwyr
B Owen, W R Owen, W T Owen, I C Thomas, H W Roberts, A Hopcyn
E R Hughes, T Thomas, K Williams, C Williams, G Thomas

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng G Thomas (c) (cyfarfod cyngor Sir), Cyng M Thomas (gwyliau) Cyng Maria Sarnacki (salwch) Cyng A Bohana (gweithio)

Darllenodd y clerc lythyr gan Cyng A Bohana gan bod ei gyfnod o 6 mis heb fynychu ar fin dod i ben . Gofynnodd yn ei lythyr am sêl bendith y Cyngor i gyfnod gras o 3 mis er mwyn iddo ceisio gwneud trefniadau i allu fynychu yn y dyfodol gan nad ydyw yn dymuno darfod
Penderfynwyd
Cytuno i gyfnod gras o 3 mis

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

- Noson sefydlu'r Maer
- Bore Coffi Sefydliad y Galon
- Croesawu Llydawyr
- Cyflwyno gwobrau pool
- Cyngerdd Patagonia
- Ras am Fywyd
- Croesawu Llong Bleser

3. **Datgan Buddiant Personol**

Cyng W T Owen – Cynllunio
Cyng C Williams – Cynllunio eitem 1
Cyng H Roberts – eitem 7

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 5 Mai 2015
ii. Panel Cyllid a Staff 19 Mai 2015
iii. Cyfarfod Blynyddol 21 Mai 2015

Penderfynwyd

i) Derbyn fel rhai cywir
ii) Derbyn rhan gyntaf gan bod hawl i weithredu ac yna gofyn i'r cwmni ddod i roi cyflwyniad i'r Cyngor ar yr elfen projector a holi os fyddai posib i griw Coleg Menai fod yn rhan o safbwynt dylunio unrhyw sleids ychwanegol
iii) Derbyn fel rhai cywir

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

Hawl i Weithredu/Right to Act (Rhif 1/No. 1)

Rhif/Number	*Manylion/Particulars*	*Cytuno/Agree*	*Anghytuno/Disagree*
1.	C15/0412/14/LL Dymchwel y lolfa haul presennol a chodi lolfa haul newydd ac ail-leoli'r fynedfa droed i'r eiddo **Endcliffe, England Road South, Caernarfon**	**Cytuno**	

****

2.	C15/0499/14/LL Newid defnydd uned diwydiannol Dosbarth B1/B2 i ddefnydd Canolfan Dosbarth D1 crefft ymladd **Uned 8 (Zone 5) Lon Cae Ffynnon. Ystad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon**	**Cytuno**	

****

(aeth Cyng W T Owen allan ar gyfer yr holl eitemau a Cyng C Williams allan ar gyfer rhif 1)

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Cyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfod blynyddol

i)Adolygu trefniadau unrhyw ddirprwyo i bwyllgorau, is - bwyllgorau

ii) Adolygu cylch gorwyl pwyllgorau

iii) Derbyn enwebiadau ar gyfer pwyllgorau presennol

(Cafwyd eglurhad bod nifer fawr wedi dangos diddordeb o fod ar y Panel cyllid ac bod hynny yn amhosib fel mae'r pwyllgor presennol yn sefyll oherwydd yr elfen staffio a bod rhaid cael rhai ar un pwyllgor a rhai eraill ar pwyllgor apêl am yr elfen hynny- rhoddwyd opsiwn o unai parhau fel oedd y pwyllgor ond pechu rhai neu creu dau pwyllgor sef pwyllgor cyllid a pwyllgor personél fel bod cymaint ag oedd yn dymuno yn medru bod ar y pwyllgor cyllid)

iv) Enwebiadau cyrff allanol

v) Penodi unrhyw bwyllgorau newydd

(wedi trafod dau yn barod ond atgoffodd y clerc am y syniad o pwyllgor cynllunio)

vi) Mabwysiadu rheolau sefydlog a rheolau ariannol

vii) Mabwysiadau rhestr asedau

viii)Adolygu aelodaeth Cyngor/neu weithwyr o gyrff arall

ix) Adolygu trefniadau cwynion

x) Adolygu polisïau

Penderfynwyd

i) Derbyn er gwybodaeth gan nad oes gan unrhyw bwyllgor bwerau

ii) Derbyn er gwybodaeth

iii) Creu dau bwyllgor sef pwyllgor cyllid a pwyllgor personél ar wahân cyn mynd ati i bleidleisio ar unrhyw rhestr – gweler rhestr drosodd

Pwyllgorau'r Cyngor

Panel Cyllid	:	Cyng. I. C. Thomas, Cyng. W. Ll. Davies Cyng. M Thomas Cyng. H. W. Roberts, Cyng. K. Williams Cyng C Williams Cyng A Bohana Cyng M Sarnacki
Is-Bwyllgor Adloniant/ Entertainment Sub-Committee		Cyng E Hughes Cyng. W. Ll. Davies, Cyng. I. C. Thomas, Cyng C Williams Cyng A. Hopcyn Cyng. E. Lovgreen Cyng G Thomas
Pwyllgor Personel		Cyng E Hughes Cyng C Williams Cyng K Williams Cyng H W Roberts
Pwyllgor Apel		Cyng. G Thomas Cyng. A. Hopcyn Cyng. E. Lovgreen Cyng T Thomas Cyng M Sarnacki
Is Bwyllgor Ymgynghorol		Y Maer Dirprwy Faer Cyng. H. Roberts Cyng. T Thomas Cyng E Hughes

Maer a'r Dirprwy yn aelodau ymysgogol o bob Is-Bwyllgor/Phanel

iv) Gweler rhestr isod

Llywodraethwyr

Ysgol yr Hendre	:	Cyng. M. Thomas
Ysgol y Gelli	:	Cyng. W.Ll. Davies
Ysgol Maesincla	:	Cyng. Hywel Roberts
Ysgol Santes Helen	:	Cyng. M Sarnacki
Galeri	:	Cyng. W. Ll. Davies (angen atebion gan Galeri Cyn penodi o Mis Hydref ymlaen)

Canolfan Noddfa	: Cyng. B Owen
Cylch Cyfeillgarwch Trefi	: Cyng C Williams
Caerog/Walled Town	Cyng. W.L.Davies,
Friendship Circle	Cyng. E. Hughes
(Is bwyllgor Rali Ceir)	Cyng E Hughes
Ymddiriedolaeth yr Harbwr/	: Cyng. I. C. Thomas (ac wedi ethol am tymor arall yn cychwyn o Mis Medi)
Harbour Trust	
Partneriaeth Caernarfon	: Cyng E Hughes a Cyng C Williams Cyng A Hopcyn a Cyng E Lovgreen wrth gefn
Unlllais Cymru	: Cyng H W Roberts a Cyng C Williams a Cyng A Bohana wrthgefn
(Cynghorau mwy)	***Cyng. C Williams a Cyng A Bohana wrth gefn***
Siambr Fasnach	: Cyng. W. Ll. Davies , Cyng. K. Williams Cyng.C Williams wrthgefn
Gefeillio	Cyng. A. Hopcyn a'r Maer
Management Group **CADW**	Cyng. Hywel Roberts
Caernarfon Marketing Group	Cyng. Hywel Roberts
Gweithgor	Cyng. W. L. Davies, Cyng.; H. W. Roberts Cyng. M. Thomas (Cyng. K Williams wrthgefn)

Pwyllgor Placiau Cymdeithas Dinesig Cyng C Williams

v) Creu pwyllgor cyllid a pwyllgor personél .
vi) Pwyllgor ymgynghorol i drafod
vii) Derbyn er gwybodaeth
viii) Symud yn flynyddol i gyfarfod amcangyfrifon
ix) Derbyn er gwybodaeth
x) Derbyn y rhai presennol , y pwyllgor personél i edrych os oes angen unrhyw un arall

10.Sgrin Gisda

Eglurodd y clerc bod ymweliad safle wedi bod a bod costau sgrin 32’ yn llai na rhai 27’ . Rhoddwyd yr opsiwn o unai gosod ar braced neu stand symudol .

Penderfynwyd

Prynu sgrin 32’ a braced a threfnu i rhywun gosod

11. Cyngor Gwynedd

Pâr: Cau y Foryd (dros dro) - Race for Life

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth gan bod y digwyddiad eisoes wedi bod, ond danfon llythyr i Cyngor Gwynedd yn nodi siom bod cymaint wedi cael tocyn parcio

12. Casgliad y Werin Cymru

Pâr: Patagonia 2015

Penderfynwyd

Danfon cofnod o’r penderfyniad a gofyn wrth Cyng M Thomas os fyddai posib i’r gwaith a wnaeth hi ar gyfer ymweliad i’r ysgol gael eu basio mlaen

13. Llythyr Llywodraeth Cymru

Pâr: Arwyddion gefeillio

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

14. Llythyr Diolch

Band Llanrug

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

15. Llythyr ymateb Swyddfa Bost

Penderfynwyd

Gofyn wrth gynrychiolydd ddod i drafod efo’r Cyngor

16. Llythyr gan y Rotari

Penderfynwyd

Derbyn gyda thristwch ac ysgrifennu i groesawu’r gadair i’r Institiwt

17. Grŵp Cynefin

Ffurflen Gais
Penderfynwyd
Cynghorwyr i dynnu sylw grwpiau lleol

18. E bost gan Cylch yr Iaith

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

19. Cyngor Cymuned - Cofrestru Buddiannau Aelodau
Penderfynwyd
Pawb i gwblhau ac yna i'w rhoi yn flynyddol ar y cyfarfod cyntaf ar ôl AGM i atgoffa pobl

20. Rhybudd o Gynnig gan Cyng. Roy Owen
Penderfynwyd
Tynnu y rhybudd yn nol felly ni drafodwyd

21.Cwestiynau

Beth yw'r arogl yn y dref?

Cyngor Gwynedd heb derbyn unrhyw gwynion felly heb ymchwilio

Gorffennodd y cyfarfod am 7.50

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....